Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Atodiad 12 Asesiad bioddiogelwch ar gyfer anifeiliaid sy'n cyrraedd – DEFAID**

**Rhan 1 – Manylion y Fferm a'r Milfeddyg (i'w chwblhau gan y milfeddyg, mewn trafodaeth â'r ffermwr)**

| | |
|---|---|
| Enw'r milfeddyg: | |
| Practis y Milfeddyg: | |
| Enw'r ffermwr: | |
| Cyfeiriad y fferm: | |
| Cod post y fferm: | |
| CRN: | |
| Rhif y Daliad: | |
| Dyddiad yr asesiad: | 15 Mawrth 2025 |
| Math o fferm: | Bridio mamogiaid mynydd |

**Rhan 2 – Gwerthuso (i'w chwblhau gan y milfeddyg, mewn trafodaeth â'r ffermwr):**

Disgrifiad byr o'r arferion ffermio gan gynnwys polisi ar anifeiliaid cadw, pori a phrynu i mewn:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | A ydych wedi prynu unrhyw dda byw yn ystod y 12 mis diwethaf? | ☒ Do ☐ Naddo |
| 2 | A ydych yn bridio eich anifeiliaid cadw eich hun? | ☐ Ydw, pob un<br>☒ Ydw, a phrynu rhai i mewn<br>☐ Nac ydw |
| 3 | A ydych yn defnyddio ffrwythloni artiffisial (AI), gwryw magu neu'r ddau? | ☐ AI ☒ Hwrdd<br>☐ Y ddau |
| 4 | A ydych yn benthyca / hurio hyrddod? | ☐ Bob amser ☐Weithiau<br>☒Byth |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | A ydych yn prynu da byw o ffynonellau achrededig? | ☐ Bob amser ☒ Weithiau<br>☒ Byth |
| 6 | A ydych yn prynu da byw yn uniongyrchol o fferm? | ☐ Bob amser ☒ Weithiau<br>☐ Byth |
| 7 | A ydych yn prynu da byw drwy farchnad? | ☐ Bob amser ☒ Weithiau<br>☐ Byth |
| 8 | A ydych yn gofyn i'r gwerthwr a yw'n monitro am ‘glefydau rhewfryn’? | ☒ Bob amser ☐ Weithiau<br>☐ Byth |
| 9 | A ydych yn gofyn i'r gwerthwr pa frechlynnau y mae'n eu defnyddio? | ☒ Bob amser ☐ Weithiau<br>☐ Byth |
| 10 | A ydych yn gofyn unrhyw gwestiynau eraill sy'n ymwneud ag iechyd? | ☐ Bob amser ☐ Weithiau<br>☒ Byth |
| 11 | A ydych yn defnyddio tir comin / tir cydbori? | ☐ Bob amser ☐ Weithiau<br>☒ Byth |
| 12 | Am ba hyd ydych yn ynysu da byw sy'n cyrraedd? | ☐ 1 wythnos<br>☐ 3 wythnos<br>☒ Tan ar ôl y tymor wyna cyntaf<br>☐ Nid wyf yn ynysu da byw sy'n cyrraedd |
| 13 | Ble rydych yn ynysu da byw sy'n cyrraedd? | ☐ Yn eu grŵp eu hunain mewn cae â ffens ffiniol ag o leiaf 3m o fwlch<br>☒ Yn eu grŵp eu hunain mewn cae<br>☐ Dan do neu mewn buarth<br>☐ Nid wyf yn ynysu da byw sy'n cyrraedd |
| 14 | Pa brofion gaiff eu cynnal? | ☐ Profion sy'n gysylltiedig ag achrediad<br>☒ Dim<br>☐ Arall |

**Crynodeb o'r risg bioddiogelwch ar gyfer y fferm hon (i'w gwblhau gan y milfeddyg, mewn trafodaeth â'r ffermwr)**

| |
|---|
| Mae'r risg bioddiogelwch yn gymedrol. Mae'r ddiadell yn agored a chaiff anifeiliaid cadw eu prynu i mewn, weithiau'n uniongyrchol o fferm ac weithiau drwy farchnad. Felly, mae risg o glefyd. Mae'r ffermwr yn gofyn cwestiynau am iechyd i'r gwerthwr, ond mae'n bosibl y bydd yn prynu da byw o hyd er nad yw'n cael unrhyw wybodaeth am iechyd. Ni ddefnyddir tir pori comin sy'n gwella bioddiogelwch y fferm a chaiff y mamogiaid a brynir i mewn eu cadw mewn grŵp ar wahân tan ar ôl eu tymor wyna cyntaf. Mae hyn yn lleihau heintiau sy'n achosi erthyliad ymhlith |

**Rhan 3 – Diogelu'r ddiadell (i'w chwblhau gan y milfeddyg, mewn trafodaeth â'r ffermwr):**

Sut y caiff y ddiadell ei diogelu rhag y clefydau canlynol sy'n cyrraedd? Dylai meysydd sydd â fawr ddim mesurau diogelu, neu ddim o gwbl, gael eu nodi fel pwyntiau gweithredu y cytunwyd arnynt **(gweler y tabl nesaf)**

| **Clefyd** | **Arfer bresennol** | **Angen gweithredu?** |
|---|---|---|
| Y clafr | Caiff yr holl ddefaid sy'n cyrraedd eu dipio ag OP pan fyddant yn cyrraedd.<br>Caiff asesiad risg ei gwblhau ar gyfer hyrddod a chânt eu gosod dan gwarantin.<br>Defnyddir prawf gwaed ELISA o bryd i'w gilydd i sgrinio am wrthgyrff y clafr. | ☒ Parhau gyda'r arfer bresennol<br>☐ Blaenoriaeth ar gyfer gweithredu |
| Endoparasitiaid sy'n gallu gwrthsefyll meddyginiaeth gwrthlyngyr | Dim | ☐ Parhau gyda'r arfer bresennol<br>☒ Blaenoriaeth ar gyfer gweithredu |
| Haemonchus contortus sy'n cyrraedd | Dim | ☐ Parhau gyda'r arfer bresennol<br>☒ Blaenoriaeth ar gyfer gweithredu |
| Llyngyr yr afu/iau a/neu lyngyr sy'n gallu gwrthsefyll triclabendasol | Trin â triclabendasol (Fasinex) | ☐ Parhau gyda'r arfer bresennol<br>☒ Blaenoriaeth ar gyfer gweithredu |
| Clefydau heintus sy'n drosglwyddadwy ymhlith defaid, h.y. OPA, MV, | Dim | ☐ Parhau gyda'r arfer bresennol |

| | | |
|---|---|---|
| clefyd Johne's defaid, clefyd y Ffin, CLA, 'llid y llygad' | | ☒ Blaenoriaeth ar gyfer gweithredu |
| Heintiau sy'n achosi cloffni h.y. straeniau newydd o glwy'r traed, CODD | Dim | ☐ Parhau gyda'r arfer bresennol<br>☒ Blaenoriaeth ar gyfer gweithredu |
| Heintiau sy'n achosi erthyliad (h.y. EAE, Campylobacter) | Caiff mamogiaid eu brechu ag Enzovax cyn eu hwrdda | ☒ Parhau gyda'r arfer bresennol<br>☐ Blaenoriaeth ar gyfer gweithredu |

**Rhan 4 – Camau gweithredu (i'w chwblhau gan y milfeddyg, mewn trafodaeth â'r ffermwr):**

Gan ddefnyddio'r canllawiau, neu wybodaeth o adolygiadau bioddiogelwch eraill rydych wedi'u gwneud ar gyfer y fferm hon, diffiniwch y camau gweithredu y cytunwyd arnynt a sut y cânt eu cofnodi.

| **Blaenoriaethau y Cytunwyd Arnynt ar gyfer Gweithredu**<br>(dylid cynnwys gwahaniaethau tymhorol lle y bo'n briodol) | **Dull Cofnodi** |
|---|---|
| ***Diogelu rhag llyngyr yr afu/iau a/neu lyngyr sy'n gallu gwrthsefyll triclabendasol.***<br>Ar hyn o bryd, caiff yr holl dda byw sy'n cyrraedd eu trin â triclabendasol. Nid yw hyn yn diogelu rhag llyngyr sy'n gallu gwrthsefyll TBZ.<br><br>Wedi trafod â'r milfeddyg o ran dosbarth y da byw a'r amser o'r flwyddyn. Wedi cynghori i ddefnyddio triniaeth closantel pan fyddant yn cyrraedd ac ailadrodd y driniaeth hon ymhen 6 wythnos. Dylid sicrhau bod y da byw yn cael eu cadw oddi wrth gynefinoedd malwod yn ystod y cyfnod hwn. | ☒ Cofnod meddyginiaethau<br>☐ Cynllun iechyd diadell<br>☐ Cofnodion symud<br>☐ Cofnod camau gweithredu bioddiogelwch |
| ***Diogelu rhag endoparasitiaid sy'n gallu gwrthsefyll meddyginiaeth gwrthlyngyr.***<br>Ni chaiff unrhyw dda byw sy'n cyrraedd eu trin ar gyfer llyngyr ar hyn o bryd. | ☒ Cofnod meddyginiaethau<br>☐ Cynllun iechyd diadell<br>☐ Cofnodion symud |

| | |
|---|---|
| Wedi cynghori i drin yr holl dda byw sy'n cyrraedd ag o leiaf un math feddyginiaeth gwrthlyngyr ac, yn ddelfrydol, ail driniaeth ar gyfer llyngyr o ddosbarth gwahanol pan fyddant yn cyrraedd. | ☐ Cofnod camau gweithredu bioddiogelwch |
| ***Diogelu rhag heintiau sy'n achosi cloffni h.y. straeniau newydd o glwy'r traed, CODD.***<br>Sicrhau bod da byw sy'n cyrraedd yn cael eu hynysu am o leiaf 3 wythnos.<br>Wedi cynghori i wneud y canlynol; Nodi unrhyw ddefaid cloff a diagnosio'r hyn sy'n achosi'r cloffni (siarad â'r milfeddyg) a thrin yr anifail cloff unigol.<br>Defnyddio baddon traed â diheintydd ar gyfer yr holl ddefaid iach. Ailadrodd mewn 48 awr.<br>Os yw'n bosibl, archwilio traed da byw sy'n cyrraedd.<br>Ystyried brechu da byw newydd ar gyfer clwy'r traed pan fyddant yn cyrraedd os yw hyn yn rhan o gynllun iechyd y ddiadell a bod yr amser yn briodol. | ☒ Cofnod meddyginiaethau<br>☐ Cynllun iechyd diadell<br>☐ Cofnodion symud<br>☒ Cofnod camau gweithredu bioddiogelwch |

**Rhan 5 - Datganiad y milfeddyg (i'w chwblhau gan y milfeddyg):**
Rwyf wedi cwblhau'r cynllun bioddiogelwch ar gyfer anifeiliaid sy'n cyrraedd gyda'r ceidwad uchod, ac wedi rhoi cyngor ar gamau gweithredu y dylid eu cwblhau ar gyfer pob anifail sy'n cyrraedd:

Llofnod y milfeddyg:

VAN:

Stamp y practis:

**Rhan 6 - Datganiad y ffermwr (i'w chwblhau gan y ffermwr):**
Rwyf wedi trafod y camau gweithredu a'r blaenoriaethau bioddiogelwch ar gyfer fy fferm â'm milfeddyg a chytuno arnynt. Byddaf yn cwblhau'r cofnod camau gweithredu bioddiogelwch yn ôl y gofyn.

Llofnod y ffermwr:

CRN:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad: | |
| Dyddiad: | |